Arddangosfa Agored y Gaeaf: Canllawiau

Galwad am Gelf yn Nhorfaen!

Mae Llantarnam Grange yn estyn gwahoddiad i artistiaid sy'n byw yn Nhorfaen i gyflwyno gwaith ar gyfer arddangosfa agored yn ein caffi.

Nid oes ffi fynediad, thema, na chyfyngiadau o ran oedran, gallu, neu brofiad.

Dyddiadau Allweddol:

Cyflwyno'r celfwaith:

- Dydd Gwener 21 Tachwedd, 9.30am - 3.30pm
- Dydd Sadwrn 22 Tachwedd, 9.30am - 3.30pm

Arddangosfa yn Agor:

- Dydd Sadwrn 6 Rhagfyr, 12 - 2pm

Dyddiadau'r Arddangosfa:

- 6 Rhagfyr 2025 - 28 Chwefror 2026

Casglu'r celfwaith:

- 9 – 13 Mawrth, 9.30am - 3.30pm

Ynglŷn â Llantarnam Grange

Llantarnam Grange yw canolfan Celf a Chrefft Cwmbrân. Rydym yn fan cyfeillgar lle mae croeso i bawb gael eu hysbrydoli, eu cynnwys, eu gwerthfawrogi, a'u parchu.

Rydym yn cefnogi amrywiaeth eang o gelfyddydau gweledol, gyda phwyslais cryf ar grefft, trwy arddangosfeydd a sioeau rheolaidd sydd am ddim i'r cyhoedd. Rydym yn adeilad prysur gyda llawer o ymwelwyr rheolaidd, yn cynnwys pobl ifanc, ysgolion, colegau, pobl hŷn, artistiaid, grwpiau cymunedol, a mwy. Mae caffi Llantarnam Grange yn arddangos gwaith, ar y cyd â'n harddangosfeydd arferol yn Oriel 1 a 2. Os hoffech gael ymdeimlad o'r lle cyn gwneud cais, mae croeso i chi ymweld â ni.

Oriau Agor: Dydd Llun - dydd Sadwrn, 9.30am - 4pm

Parhad….

Canllawiau a Gwybodaeth am Gyflwyno :

Rhestr wirio:

- A ydy'r gwaith yn 2D ac a ellir ei hongian ar wal?
- A ydy'r gwaith yn A3 ar y mwyaf (29.7cm x 42cm lled/uchder) a heb fod yn ddyfnach na 15cm?
- Ydych chi'n byw yn Nhorfaen?

Os mae 'ydy/ydw' yw eich ateb i'r tri chwestiwn, darllenwch y manylion am sut i gyflwyno eich gwaith:
Darllenwch a llenwch y ffurflen ar ddiwedd y ddogfen hon ac atodwch unrhyw wybodaeth berthnasol am y gwaith.

Cyflwynwch eich gwaith naill ai ddydd Gwener 21 Tachwedd neu ddydd Sadwrn 22 Tachwedd, 9.30am - 3.30pm yn:

Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
Cwmbrân
NP44 1PD

Cewch fwy o wybodaeth ynglŷn â sut i gyrraedd yma a beth i'w ddisgwyl ar ein tudalennau gwe **Ymwelwch â Ni** a **Chanllaw Hygyrchedd.**

Noder bod parcio y tu allan yn gyfyngedig. Os oes angen help arnoch pan fyddwch yn cyrraedd, ffoniwch ni ar **01633 483321** i drefnu ymlaen llaw.

Os ydych yn postio gwaith, bydd angen iddo gyrraedd heb fod yn hwyrach na dydd Gwener 21 Tachwedd 2025. Rhowch gyfeiriad dychwelyd rhag ofn y bydd angen i ni ei anfon nôl atoch ar ôl i'r sioe orffen. Byddwch yn gallu casglu eich gwaith mewn person rhwng 9 - 13 Mawrth 2026, 9.30am - 3.30pm

Os na allwch ddod â'ch gwaith atom oherwydd symudedd neu resymau mynediad eraill, neu mae angen help arnoch gyda'r tâl post, cysylltwch ni â drwy e-bost yn savanna.dumelow@llantarnamgrange.com *neu ffoniwch 01633 483321 a byddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu.*

Telerau ac Amodau:

1. Arddangos/Fframio

Gallwch gyflwyno un darn o gelf yr un yn unig gan ein bod eisiau rhoi cyfle i gymaint o bobl gyfrannu â phosibl. Byddwn yn derbyn gwaith mewn unrhyw gyfrwng 2D. Does dim rhaid iddo fod yn gelfwaith wedi fframio ond mae'n rhaid iddo fod yn barod i'w hongian. Bydd gwaith heb ei fframio naill ai'n cael ei binio, ei hongian gyda chlipiau fforchog neu ei lynu wrth y wal yn defnyddio gludydd ar y cefn: mae croeso i chi gynnwys nodyn yn esbonio sut

hoffech chi weld eich gwaith yn cael ei lynu wrth y wal. Ni fyddwn yn derbyn gwaith sy'n fwy nag A3 (29.7cm x 42cm lled/uchder) neu'n ddyfnach na 15cm.

Ein nod fydd arddangos yr holl waith sy'n bodloni'r meini prawf, ond am fod y lle yn gyfyngedig, os byddwn yn derbyn mwy o gyflwyniadau na'r disgwyl, bydd rhaid i ni ddewis pa waith fydd yn cael ei gynnwys. Os penderfynwn beidio â chynnwys eich gwaith, byddwn yn rhoi gwybod i chi erbyn dydd Gwener 28 Tachwedd ac yn trefnu i chi ei gasglu.

2. Cyflwyno'r gwaith

Mae'n rhaid i'r celfwaith ein cyrraedd erbyn yr amserau a nodir uchod. Ni fydd unrhyw gyflwyniad ar ôl yr amserau hyn yn cael ei hongian oni bai ein bod wedi siarad â chi ymlaen llaw a gwneud trefniadau eraill.

3. Cynnwys y gwaith

Bydd yr holl waith yn cael ei arddangos yn ein caffi prysur – bydd yr ymwelwyr yn cynnwys pobl ifanc, ysgolion, colegau, pobl hŷn, artistiaid, grwpiau cymunedol, a mwy. Ni fyddwn yn derbyn gwaith a allai ddigio rhywun. Dangosir gwaith yn ôl disgresiwn Llantarnam Grange, ac er ein bod yn anelu at gynnwys yr holl gyflwyniadau, bydd hefyd rhaid i ni ystyried p'un ai fod cynnwys yn debygol o ddigio. Os ydych yn ansicr, am unrhyw reswm, ynglŷn ag addasrwydd eich gwaith, cysylltwch â ni yn hello@llantarnamgrange.com a gallwn drafod eich pryderon. Mae'r penderfyniad terfynol yn nwylo Llantarnam Grange

4. Hongian gwaith

Bydd staff Llantarnam yn hongian ac yn arddangos y celfwaith. Cymerir pob gofal i ddiogelu'r gwaith rhag difrod. Bydd labeli sy'n rhestru'r gwaith ar gael i ymwelwyr i'r oriel pan fydd y sioe yn agor.

5. Gwerthiannau

Nid oes rhaid i'r gwaith fod ar werth. Os ydyw, nodwch yn glir isod faint yw pris eich gwaith. Bydd Llantarnam Grange yn cymryd comisiwn gostyngol ar gyfer yr arddangosfa hon, sef 20% o'r pris gwerthu, felly cadwch hyn mewn golwg wrth brisio eich gwaith! Cyfrifir y gwerthiannau ar ddiwedd yr arddangosfa. Bydd Llantarnam Grange yn cofnodi ac yn dal yr holl arian a gymerir tan ar ôl i'r arddangosfa gau, ac yna bydd yn cael ei ddosbarthu. Rydym yn hapus i'ch helpu gydag unrhyw gwestiynau prisio.

6. Casglu'r gwaith

Gallwch gasglu eich gwaith o Lantarnam Grange rhwng 9 - 13 Mawrth 2026, 9.30am - 3.30pm. **Rhowch wybod i ni os na allwch gasglu eich gwaith ar unrhyw un o'r diwrnodau hyn. Ni allwn fod yn gyfrifol am waith heb ei gasglu am byth.**

Llenwch y ffurflen gais isod…

Cyn cyflwyno eich celfwaith, gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth hon ar gefn eich gwaith (os na allwch ei phrintio, gallwch ei hysgrifennu â llaw). Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn cynnwys eich gwaith, ac mae'n haws i ninnau wrth hongian/coladu/rhestru'r gwaith. Diolch!

Byddai'n ddefnyddiol iawn petasech yn gwneud hyn cyn cyrraedd Llantarnam Grange, ond gallwn eich helpu ar y diwrnod cyflwyno os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth.

Artist:

Teitl y gwaith:

Cyfrwng:

Pris Gwerthu (yn cynnwys comisiwn): £ ……

MANYLION CYSWLLT

Enw:
Cyfeiriad:

Cod Post:

Ffôn:
Ffôn symudol:
E-bost:

Llofnod: …….

Trwy lofnodi'r uchod rydych yn cadarnhau eich bod yn cytuno â Thelerau ac Amodau Arddangosfa Agored y Gaeaf fel y'u pennir uchod. Os nad yw eich celfwaith yn cydymffurfio â'r telerau hyn, ni chaiff ei arddangos.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn **hello@llantarnamgrange.com** neu ffoniwch ni ar **01633 483321**

Edrychwn ymlaen at weld eich gwaith!